OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 559

# Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011

## RHAN 3

Gweithgareddau y mae erthygl 4 (esemptio rhag yr angen am drwydded forol) yn gymwys iddynt ac amodau

### Symud rhwystr neu berygl i fordwyaeth

**23.**—(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i weithgaredd symud a ymgymerir gan berson y cyfeirir ato ym mharagraff (2) at y diben o symud unrhyw beth sy'n achosi, neu'n debygol o achosi, rhwystr neu berygl i fordwyaeth.

(2) Y personau yw—

(a) awdurdod cadwraeth (yn yr ystyr a roddir i "conservancy authority" gan adran 313(1) o Ddeddf Llongau Masnach 1995(**1**);

(b) awdurdod harbwr;

(c) awdurdod goleudy;

(ch) person sydd â phwerau o dan unrhyw ddeddfiad neu orchymyn statudol i weithio neu gynnal camlas neu fath arall o fordwyaeth fewndirol, gan gynnwys mordwyaeth mewn dyfroedd llanwol.

(**1**) 1995 p.21